Croeso i gylchlythyr Mehefin 2024

Vision Support, sy'n cynnwys ardaloedd: Halton 0151 5118801

Gogledd Ddwyrain Cymru 01244 381515

Caer 01244 478910

Helo i chi gyd gan bob un ohonom yn Vision Support! Mae gennym grwpiau newydd gwych i'w rhannu gyda chi yn y rhifyn hwn ac, fel bob amser, mae llawer o ymweliadau wedi'u cynllunio gyda'n Gwasanaeth Gwybodaeth Gymunedol, ac mae gennym ein dau ddigwyddiad VisionZone olaf ar y gweill.

Yr Wyddgrug, Sir y Fflint

Mae'n bleser gennym gyhoeddi bod gennym grŵp newydd sbon yn dod i'r Wyddgrug yn Sir y Fflint! Ymunwch â ni am goffi a sgwrs yng Nghaffi Isa! Bydd y grŵp newydd hwn ar y 3ydd dydd Llun o bob mis rhwng 12.30pm a 2pm yng Nghaffi Isa yng Nghanolfan Gymunedol Llyfrgell Mynydd Isa, Mercia Drive, Mynydd Isa, Yr Wyddgrug, CH7 6UH.

Mae'r cyfarfodydd nesaf ar y dyddiadau canlynol:
17eg Mehefin,15fed Gorffennaf, a'r 16eg Medi. Os hoffech fynychu, neu i ddarganfod mwy, ffoniwch 01244 381515 neu e-bostiwch information@visionsupport.org.uk

VisionZone

Dewch draw i ddigwyddiadau VisionZone i ddysgu am wasanaethau, cefnogaeth a thechnoleg gynorthwyol i bobl sydd â nam ar eu golwg. Mae'r holl ddigwyddiadau'n rhedeg o 10am tan 2pm. Nid oes angen apwyntiad.

12fed Mehefin - Canolfan Gwasanaethau Synhwyraidd Halton, 126 Widnes Road, Widnes, WA8 6AX.

13eg Mehefin - Ysbyty Northwich, Adran Offthalmoleg, Winninton Hill, Northwich, CH8 1AW.

VisionZone 2024

Datrysiadau ar gyfer Golwg Gwan

A hoffech chi ddarganfod mwy am dechnoleg gynorthwyol, cefnogaeth, gwasanaeth, grwpiau, a llawer mwy?

Mae ein digwyddiadau VisionZone yn dwyn ynghyd amrywiaeth o wasanaethau ac elusennau rhagorol sy'n cwmpasu eich ardal leol. Beth bynnag yw eich cyflwr colli golwg, rydym yma i chi.

P'un ai dim ond i ennill gwybodaeth neu i gael profiad ymarferol gyda thechnolegau newydd, mae mynediad am ddim a bydd ein staff cyfeillgar yn eich cyfarch gyda chroeso cynnes.

Dydd Mercher 12fed Mehefin 2024 10am i 2pm.

Vision Support, 126 Widnes Road, Widnes, WA8 6AX.

Vision Support

Your Vision, Our Support

Sarabec

0800 1456115

www.lowvisionshop.co.uk

VisionZone 2024

Datrysiadau ar gyfer Golwg Gwan

A hoffech chi ddarganfod mwy am dechnoleg gynorthwyol, cefnogaeth, gwasanaethau, grwpiau, a llawer mwy?

Mae ein clinig yn dod â gwasanaethau a chynhyrchion i chi, a all helpu ym mhob maes o golli golwg a dallineb. Beth bynnag yw eich cyflwr, rydym yma i chi.

P'un ai dim ond i ennill gwybodaeth neu i gael profiad ymarferol gyda thechnolegau newydd, mae mynediad am ddim, a bydd ein staff cyfeillgar yn eich cyfarch gyda chroeso cynnes.

Dydd Iau 13eg Mehefin 2024 10am i 2pm.

Ysbyty Northwich, Adran Offthalmoleg, Winninton Hill, Northwich, CW8 1AW.

Vision Support

Your Vision, Our Support

0800 1456115

www.lowvisionshop.co.uk

Yn dod yn fuan

Sesiwn Galw Heibio Te a Thechnoleg

Ym mis Mehefin rydym yn mynd i lansio ein Sesiwn Galw Heibio Te a Thechnoleg newydd yn The Storyhouse, Caer.

Yn ystod y sesiynau hyn, bydd ein Swyddogion Sgiliau Digidol cyfeillgar, Kate a Keith, wrth law i ateb unrhyw ymholiadau neu i gael sgwrs gyffredinol am rywbeth technegol y mae gennych ddiddordeb ynddo.
I fod y cyntaf i wybod pryd y bydd ein Sesiwn Galw Heibio Te a Thechnoleg cyntaf, e-bostiwch digitalskillsreferrals@visionsupport.org.uk.

Prosiect ‘Vision Sport’

Rydym wedi bod yn llwyddiannus yn ein cais am grant bach gan Ymddiriedolaeth Elusennol Stadiwm y Mileniwm i allu cyflwyno sesiynau blasu beicio a dringo yng Ngogledd Cymru, gyda'r sesiynau cyntaf wedi'u cynllunio ar gyfer y misoedd nesaf.

Er mwyn gwneud y prosiect hwn yn llwyddiant, rydym eich angen chi! Mae hyn ar gyfer unrhyw un sydd â diddordeb mewn rhoi cynnig arni, dim ond i gael hwyl. Byddem wrth ein bodd yn dangos faint o gyfleoedd chwaraeon fel hyn sydd eu hangen yng Ngogledd Cymru ar gyfer pobl sydd â nam ar eu golwg, fel y gallwn wneud cais am fwy o arian yn y dyfodol. Bydd cludiant ar gael ar gyfer llawer o'n sesiynau o rai pwyntiau casglu canolog.

Ffoniwch 01244 381515 neu e-bostiwch information@visionsupport.org.uk i gofrestru eich diddordeb.

Gwasanaeth Gwybodaeth Gymunedol

Ar y dudalen nesaf mae'r ymweliadau yr ydym wedi'u cynllunio ar gyfer mis Mehefin gyda'r Gwasanaeth Gwybodaeth Gymunedol.

Nodwch fod gennym ddau gerbyd a gall yr amserlen newid. Am fwy o wybodaeth, ffoniwch ni ar 01244 381515 neu e-bostiwch information@visionsupport.org.uk. Gellir dod o hyd iddo hefyd ar ein gwefan, www.visionsupport.org.uk.

Amserlen y Gwasanaeth Gwybodaeth Gymunedol

Dydd Llun 3ydd **Clinig Llygad Abergele (ger yr ystafell aros)**
10.00am - 2.30pm

Dydd Mawrth 4ydd **Brook Street Neston ger Sainsbury**
10.00am - 3.00pm

Dydd Mercher 5ed **Tweedmill, Llanelwy** 10.00am - 2.30pm

Dydd Mercher 5ed **Stondin Gymunedol Marchnad Widnes**
10.00am - 3.00pm

Dydd Iau 6ed **Maes Parcio Iard yr Orsaf Porthmadog**
10.30am - 2.30pm

Dydd Iau 6ed **Canol Tref Northwich (ger Boots)** 10.00am - 3.00pm

Dydd Gwener 7fed **Llyfrgell Prestatyn (Talking Point)**
10.00am - 2.30pm

Dydd Llun 10fed **Y Rhyl, maes parcio Morrisons** 10.00am - 2.30pm

Dydd Mawrth 11eg **Bellis Farm Shop, Holt (maes parcio)**
10.30am - 2.30pm

Dydd Mawrth 11eg **Llyfrgell Frodsham** 10.00am - 3.00pm

Dydd Iau 13eg **Ysbyty Victoria Northwich, Sesiwn Sbotolau Offer Optelec** 10.00am - 3.00pm

Dydd Llun 17eg **Promenâd Llandudno ger y Senotaff**
10.00am - 2.30pm

Dydd Mercher 19eg **Clwb Eye 2 Eye, Garden City** 10.30am - 2.30pm

Dydd Mercher 19eg **Canolfan Arddio Gordale** 10.00am - 3.00pm

Dydd Iau 20fed **Llyfrgell Bae Colwyn** 10.00am - 2.30pm

Dydd Iau 20fed **Stondin Gymunedol Marchnad Widnes**
10.00am - 3.00pm

Dydd Gwener 21ain **maes parcio Lower High St Prestatyn**
10.00am - 2.30pm

Dydd Llun 24ain **Ysbyty Gwynedd Bangor** 10.30am - 2.30pm

Dydd Mawrth 25ain **Llyfrgell y Rhyl** 10.00am - 2.30pm

Dydd Mawrth 25ain **Kingswood Kingsway** 10.00am - 12.00pm

Dydd Mawrth 25ain **Llyfrgell Blacon** 1.00pm - 3.00pm

Dydd Mercher 26ain **Asda, Y Fferi Isaf** 10.30am - 2.30pm

Dydd Mercher 26ain **Direct Link Runcorn** 10.00am - 2.00pm

Dydd Iau 27ain **Cemaes, maes parcio Cae Pwmp** 10.30am - 2.30pm

Dydd Iau 27ain **Ysbyty Victoria Northwich** 10.00am - 3.00pm

Dydd Sul 30ain **Ysbyty Maelor Wrecsam** 10.30am - 2.30pm

Mwy o Grwpiau Newydd

Goalball, Wrecsam

Mae Goalball yn dod i Ogledd Cymru! Dewch draw i unrhyw un o'u sesiynau blasu am ddim yn Wrecsam i gael hwyl a dysgu popeth am y gamp Paralympaidd gyffrous hon! Mae croeso hefyd i deulu a ffrindiau. Dyddiadau: Dydd Sadwrn 15fed Mehefin a dydd Sadwrn 20fed Gorffennaf Amser: 12pm i 2pm Lleoliad: Canolfan Chwaraeon Prifysgol Wrecsam, Mold Road, Wrecsam, LL11 2AW.

Am fwy o wybodaeth, ac i gofrestru eich diddordeb, cysylltwch â Kathryn Fielding ar 07795 263642 neu e-bostiwch Kathryn.Fielding@goalballuk.com

Tenis VI, Birchwood Warrington

Mae Canolfan Gymunedol Birchwood yn Warrington, Sir Gaer yn dechrau sesiynau tenis VI ar ddyddiau Mercher rhwng 2-3pm.
Am fwy o wybodaeth neu i archebu lle, cysylltwch â Chanolfan Gymunedol Birchwood ar 01925 458130 neu e-bostiwch aday@livewirewarrington.org. Mae llawer o sesiynau tenis cynhwysol ar gael hefyd fel rhan o Raglen Anabledd a Chynhwysiant LiveWire fel tenis cerdded i bobl dros 50 oed, tenis cadair olwyn a thenis clefyd Parkinson.

Charlotte’s Tandems

Ydych chi wedi clywed am yr elusen Charlotte’s Tandems?
Maent yn rhoi benthyg am ddim, ledled y DU, beiciau tandem i bobl sydd ag anableddau neu anghenion ychwanegol, nad ydynt yn gallu reidio beic yn ddiogel ar eu pen eu hunain, fel y gallant fwynhau rhyfeddodau beicio.

Os ydych wedi gweld yr angen i fynd yn ôl ar feic neu fynd allan am reidiau beic gyda ffrindiau neu deulu, beth am gysylltu i gael gwybod mwy, mae ganddyn nhw ffurflen ar-lein ar wefan www.CharlottesTandems.co.uk, ond os hoffech ni i gwblhau’r ffurflen ar eich rhan, ffoniwch ni ar 01244 381515.